**Blog Simon Brookes**
**Tachwedd 5, 2015**



## Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd

Mae’n daith go bell i gyrraedd eu caban wrth gefn Ysgol Eifionydd, ond dwi ddim yn meddwl fod yna adeilad, na swydd, pwysicach na hi ym Mhorthmadog.

Croeso i Ganolfan Iaith Uwchradd Gwynedd ble mae plant oedran uwchradd sy’n symud i’r sir yn ddi-Gymraeg yn cael eu hanfon i ddysgu Cymraeg. Ac wedi iddyn nhw ddysgu Cymraeg, mi gan nhw fynd yn ôl i’w hysgol uwchradd a chael chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol a’r gymdogaeth.

O Loegr y mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn dwad, ond mae hefyd plant o Wlad Pwyl a Lithwania yn y Ganolfan ar hyn o bryd. Yn wir, mae rhai plant yn cyrraedd yn ddigon prin eu Saesneg, ac felly mae dysgu Cymraeg iddyn nhw’n ffordd o roi iddynt iaith gyffredin â gweddill plant Gwynedd.

Ac am waith sy’n gofyn am frwdfrydedd gan y staff! Carys Lake a Cari Lewis sy’ wrthi, dwy o Borthmadog. Dysgu dygn, da, ‘rhyngweithiol’ – hynny ydi, canu, gwaith dosbarth, gemau cyflym ar fwrdd gwyn. Y math gorau o ddysgu iaith, ble mae rhywun yn cymryd rhan mewn gweithgarwch, ac wrth gymryd rhan yn arfer eu hiaith newydd.

Rydym ni i gyd eisiau gweld goroesiad a pharhad y diwylliant Cymraeg yng Ngwynedd. Ond mi ydyn ni i gyd am i’n diwylliant Cymraeg fod yn groesawgar, ac yn agored i bobl o bob cefndir hefyd.



Diwylliant Cymraeg croesawgar, amlethnig ac hunanhyderus – hwnna ydi o!

Diolch i Carys a Cari – dwy sy’ ar y ‘ffrynt-lein yma’.